# Health, Wellbeing and Local Government Committee

## 10 March 2011

## HWLG(3)-03-11-p4

#### Tystiolaeth CLlLC i Bwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 17 Chwefror 2011

#### Sefyllfa Un Statws a Chyflog Cyfartal yng Nghymru – Diweddariad

#### Cyflwyniad

1.Mae CLlLC dros y blynyddoedd diweddar wedi darparu nifer o bapurau tystiolaeth i Bwyllgorau Cyfle Cyfartal ac Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Cynulliad ar destun un Statws a chyflog cyfartal mewn llywodraeth leol. Mae'r rhain wedi rhoi gwybodaeth fanwl ar hanes, cymhlethdod, anhawster a chostau perthnasol, ac mae'n siwr y byddant ar gael i aelodau'r Cynlluniad fel deunydd darllen cefndir.

2.Yn unol â hynny, nid yw CLlLC yn bwriadu mynd dros hen dir yn y papur tystiolaeth hwn a bydd yn cyfuno'r cynnwys i ddiweddariad cyffredinol ar y cynnydd, ac yn rhoi manylion unrhyw faterion newydd sydd wedi codi ers i ni gyflwyno ddiwethaf (ym mis Mawrth 2010).

#### Diweddariad ar Sefyllfa Awdurdodau Lleol

3.Mae un ar hugain o awdurdodau bellach wedi gorffen agweddau technegol proses Gwerthuso Swyddi Un Statws i raddau helaeth, ar wahân i'r angen i wneud gwerthusiadau newydd oherwydd ailstrwythuro parhaus mewn llawer o gynghorau a gwaith parhaus gydag ysgolion ar gyfer rhai. Mae Cyngor Sir Casnewydd wedi achub ar y cyfle i adolygu ei ymagwedd tuag at un statws ynghyd â datblygu ymagwedd fodern tuag at wobrwyon. Yng Nghasnewydd, mae tîm Prosiect 'Cyfanswm Gwobrwyon' wedi cael ei sefydlu yn ddiweddar a fydd yn adolygu sefyllfa'r Awdurdod ar gyflog cyfartal, cyflog a graddio a buddion hyblyg'

4.Mae wyth awdurdod bellach wedi gweithredu Un Statws neu yng nghyfnod terfynol ei weithredu. Y rhain yw Caerffili, Sir Ddinbych, Gwynedd, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Torfaen a Wrecsam. Mae Sir Fynwy hefyd wedi cael cydgytundeb yn ddiweddar ac yn symud ymlaen gyda'r gweithredu.

5.Mae Bro Morgannwg ar hyn o bryd yn symud ymlaen i bleidleisio ar eu Cydgytundeb drafft gyda'r gobaith o gael pleidlais ie a fydd yn eu galluogi i symud i weithredu yn syth. Mae tri awdurdod arall ar hyn o bryd yn ceisio cwblhau'r trafodaethau yn ymwneud â'u pecynnau un Statws a fydd yn eu galluogi i symud ymlaen i weithredu Un Statws. Y rhain yw Sir Gaerfyrddin, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe.

6.Mae naw awdurdod wedi gwneud taliadau i setlo atebolrwydd cyflog cyfartal posibl. Y rhain yw Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Gwynedd, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Thorfaen.

7.Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wrthi'n ceisio setlo, heb ragfarn, hawliadau cyflog cyfartal yn lleol gyda grwpiau cymwys o weithwyr. Y gobaith yw y byddant yn gallu gwneud hyn erbyn diwedd Mawrth 2011 ac maent ar hyn o bryd yn trafod gyda'u Hundebau Llafur cydnabyddedig yn ymwneud ag elfennau technegol setliad o'r fath. Mae Sir Fynwy o'r farn nad oes ganddynt unrhyw atebolrwydd am hawliadau Cyflog Cyfartal ac mae ganddynt amddiffyniadau ffactor materol dilys i'r cynlluniau bonws. Fodd bynnag, fel rhan o'u cytundeb diweddar maent wedi dechrau siarad â'r Undebau ynglyn â gwneud setliad economaidd heb dderbyn unrhyw atebolrwydd. Mae Bro Morgannwg, fel rhan o'u cydgytundeb drafft gyda'r undebau, wedi cytuno i edrych ar yr opsiynau ar gyfer setlo achosion yn amodol ar broses asesu risg glir a chadarn a'r broses arferol o "gyfaddawdu" hawliadau trwy lwybr ACAS.

8.O'r deg awdurdod sy'n weddill sydd heb wneud taliadau iawndal cyflog cyfartal eto, mae Ynys Môn, Pen-y-bont ar Ogwr, Ceredigion, Sir y Fflint, Powys a Sir Benfro yn adolygu eu sefyllfa yn barhaus, a bydd Casnewydd yn adolygu ei sefyllfa yn fuan. Mae Cyngor Sir Penfro wedi datgan 'rydym yn cwblhau ein gwaith un statws cyn ystyried setliadau cyflog cyfartal ar gyfer staff. I'r perwyl hwnnw, rydym bellach wedi dod i ddiwedd agweddau technegol ar ein gwaith a byddwn yn dechrau modelu cyflog dros yr wythnosau nesaf'. Mae dau awdurdod, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, wedi datgan eu bwriad i barhau i amddiffyn hawliadau cyflog cyfartal ar hyn o bryd.

9.Bydd y cynghorau sydd heb weithredu Un Statws eto yn ceisio gwneud hynny yn ystod 2011/12. Fodd bynnag, efallai nad yw'r graddfeydd amser hyn yn gyfan gwbl o dan eu rheolaeth.

#### Materion Cyfredol

10.Mae toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol yn golygu bod cynghorau yn ceisio gwneud ystod o arbedion ar hyn o bryd er mwyn bodloni'r gofyniad statudol iddynt greu cyllidebau cytbwys erbyn mis Mawrth eleni. Gyda chostau'r gweithlu ymhell dros 50% o gyfanswm y gyllideb, mae'n anochel bod yn rhaid ystyried arbedion i gostau'r gweithlu.

11.Bydd yr awdurdodau hynny sydd eisoes wedi gweithredu Un Statws yn gyffredinol wedi gwneud rhai arbedion yn erbyn y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweithredu trwy'r newidiadau i Ran 3 o delerau ac amodau llywodraeth leol, er enghraifft lleihau cyfraddau cyflog ar gyfer gweithio ar Ddydd Sadwrn a Dydd Sul, goramser neu waith nos. Mae angen i'r awdurdodau hynny sydd heb wneud y newidiadau hyn eto eu gwneud yn llawer cyflymach nag y byddent pe na fyddent yn wynebu anawsterau ariannol. Mae hyd yn oed rhai

sydd eisoes wedi gweithredu Un Statws yn canfod bod angen iddynt wneud arbedion pellach ar y gweithlu a chostau eraill. I rai nid oes cwmpas pellach ar gyfer trafodaethau hirfaith gyda'r undebau llafur o fewn y graddfeydd amser presennol.

12.Mae'r sefyllfa hon yn arwain at rywfaint o ddryswch a chamwybodaeth yn y wasg gyda rhai sylwadau anffodus am weithredoedd y cynghorau perthnasol. Mae'n amlwg nad yw hyn yn helpu'r amgylchiadau anodd ar hyn o bryd lle mae'r cynghorau yn ceisio dod â thrafodaethau hirfaith ar Un Statws i ben a chydbwyso cyllidebau tra'n diogelu gwasanaethau a swyddi cyhyd â phosibl.

Mae CLlLC wedi helpu i drafod 'Memorandwm o Ddealltwriaeth' gydag undebau llafur llywodraeth leol Cymru a fydd, gobeithio, yn rhoi fframwaith ar gyfer y trafodaethau angenrheidiol ar arbedion cost y gweithlu a 'hwyluso pethau' gan gyflymu'r broses ar lefel leol. Gan fod hyn yn cynnwys llawer o'r telerau ac amodau sydd eisoes yn cael eu trafod trwy'r broses Un Statws, dylai hefyd helpu i ddatblygu'r agenda hon.

### Casgliad

14.Mae awdurdodau lleol yn parhau i wneud cynnydd ar Un Statws a chyflog cyfartal. Mae'r materion hyn yn dal yn gymhleth ac yn sensitif iawn ac mae'r sefyllfa ariannol bresennol yn ychwanegu pwysau ychwanegol i'r sefyllfa.